

Cofnodion Fforwm Rheoli Dŵr Cymru

Teitl y cyfarfod: Fforwm Rheoli Dŵr Cymru

Lleoliad: Yn rhithwir drwy MS Teams

Dyddiad y Cyfarfod: 20 Hydref 2021

Aelodau Fforwm Rheoli Dŵr Cymru a oedd yn Bresennol:

Yn Bresennol: Yr Athro Steve Ormerod (CADEIRYDD), Mark Charlesworth (Ysgrifennydd), Ceri Davies (CNC), Mark Squire (CNC), Ruth Johnston (CNC), Siân Williams (CNC), Eifiona Williams (LIC), Gail Davies-Walsh (Afonydd Cymru ar ran Cyswllt Amgylchedd Cymru), Liz Franks (HD), Phil Stone (Canŵ Cymru), Tony Harrington (DCWW), Bob Gilchrist (CCW), Tom Mills (Yr Awdurdod Glo), Adrian Jones (Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru), Lia Moutselou (CCW), Richard Blackwell (WRW ar ran United Utilities), Anthony Geddes (Confor), Clare Bullan (UU).

Ymddiheuriadau: Rachel Lewis-Davies (NFU Cymru), Bethan Evans (Ofwat), Carl Banton (CA), David Throup (Asiantaeth yr Amgylchedd)

Aelodau trwy ohebiaeth: Mark Tilling (Is-adran y Môr a Physgodfeydd LIC), Peter Birch (Glandŵr Cymru), Dai Harries (LIC – Cangen y Tir, Natur a Choedwigaeth),

Ysgrifenyddiaeth: Ceri Jones

Eitem 1 Agor y cyfarfod

Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, yr Athro Steve Ormerod, ac amlinellodd y trefniadau ar gyfer cynnal y Fforwm yn y fformat rhithwir.

Eitem 2 Adolygu'r cofnodion a'r cofnod gweithredu

Cadarnhawyd cofnodion a chymau gweithredu'r cyfarfod diwethaf. Roedd y rhain wedi eu cwblhau, ar wahân i'r pwynt gweithredu i AO rannu papur ynghylch afon Gwy a gafodd ei gario drosodd. Derbyniwyd y Cylch Gorchwyl diwygiedig. Bydd fersiwn terfynol yn cael ei roi ar dudalen Fforwm Rheoli Dŵr Cymru ar wefan CNC.

<https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/wales-water-management-forum/?lang=cy>

Eitem 3 Cyfraniadau aelodau a phapur diweddarau - uchafbwyntiau a thrafodaeth agored

Diolchodd y cadeirydd i Canŵ Cymru am y diweddariad ysgrifenedig a ysgogodd drafodaeth ar wahaniaethu rhwng defnydd o afonydd ar gyfer ymdrochi a defnydd hamdden yng nghyd-destun dynodiad dŵr ymdrochi mewndirol a mynediad at afonydd.

Cam Gweithredu. PS i rannu adroddiad am fynediad at ddŵr ar gyfer canŵio.

Cafodd y gweithdy ar Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDau) groeso brwd, a'r prif ganlyniadau oedd newid posibl yn y dull o ymdrin â pholisïau a ffurfio grŵp gorchwyl a gorffen i gyfrannu at adolygiad Llywodraeth Cymru. Mae cynllun y llywodraeth yn ymrwymo i ddatblygu SUDau. Cynhelir y grŵp gorchwyl a gorffen gan CNC, a fydd yn drafftio'r cylch gorchwyl.

Cam Gweithredu. CJ i anfon papurau ymlaen o'r gweithdy SUDau at AG, oedd ddim yn gallu bod yn bresennol.

Cafodd y gweithdy ar Systemau Draenio Cynaliadwy rhwng Fforwm Rheoli Dŵr Cymru a Fforwm Rheoli Tir Cymru ei groesawu fel enghraifft dda o weithio rhwng grwpiau. Dylid ymchwilio i gyfleoedd pellach o gydweithio rhwng y Grwpiau Dŵr, Tir a Physgodfeydd.

Eitem 4 Water Resources West (WRW), Cyrchfan Amgylcheddol – Liz Franks a Clare Bullen, HD

Amlinellodd RB gwmpas daearyddol WRW a'r aelodau sy'n rhan ohono. Mae'r egwyddorion cyflawni'n cyd-fynd yn dda gydag egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR), megis ystyried graddfeydd priodol, manteision niferus a dull cydweithredol o gyflawni. Yn dilyn ymarfer blaenoriaethu, nodwyd 6 dalgyrch i ganolbwyntio arnynt, gan gynnwys Dyfrdwy, Efyrynwy, Clywedog, Afonydd Cymoedd y De Ddwyrain, Gwy a Wysg. Mae WRW yn awyddus i gydweithio â rhanddeiliaid i gyflwyno prosiectau sy'n cyflwyno manteision niferus yn yr ardaloedd hyn. Gofynnwyd a oedd WRW yn cynnwys Wysg a chadarnhawyd ei fod, fel rhan o ystyriaeth ehangach i fyny'r afon. Teimlid y dylai manteision hamdden ac addysgol sy'n ategu ei gilydd hefyd gael eu hystyried. e.e. gosod llwybr canŵ ochr yn ochr â llwybr pysgod yn Rhaeadr y Bedol. Ystyriwyd fod y nod o leihau defnydd 30% yn uchelgeisiol iawn ac nid oedd manylion ar gael ar gyfer hyn eto. Trafodwyd cyfleoedd ar gyfer cyflwyno'r afanc a soniodd LF am fenter Severn Trent yn Lloegr, gan gydnabod yr awydd am ailgyflwyno pellach. Mae gollyngiadau o'r rhwydwaith yn parhau yn fater i fynd i'r afael ag ef.

PG. G.D-W i drafod cyfleoedd pellach ar gyfer cydweithredu a chyflawni gweithredu ar y cyd mewn dalgyrch gyda RB a LF

PG. LF i gynnig gwybodaeth bellach i Dennis Matheson am gynlluniau i leihau gollyngiadau

Eitem 5. Rhaglen Mapio Gorlifoedd Stormydd – Mark Squire, CNC

Cafwyd cyflwyniad gan MS ar y gwaith diweddar i fynd i'r afael â gorlifoedd stormydd. Yn y degawd diwethaf mae cynnydd wedi ei wneud i ddeall maint arllwysiadau gorlifoedd stormydd drwy osod offer monitro yn ystod digwyddiad. Mae gwaith pellach gyda chwmnïau dŵr ac OFWAT ar gyfer buddsoddi yn parhau ac mae opsiynau 'llwybr carlam' yn cael eu hystyried. Mae rhaglen fapio yn cael ei datblygu a bydd hon yn cynnwys cynllun cyfathrebu ac ystyriaethau ynghylch integreiddio'r gwaith gyda Ffosfforws yn Afonydd ACA a Chynlluniau Rheoli Basnau Afonydd. Bydd atebion yn cynnwys mesurau rheoli ffynhonnell i nodi cydbwysedd rhwng cyfrifoldeb dinasyddion a rheoleiddio. Tanlinellwyd yr angen i ymgysylltu â'r sector hamdden ac ennill ymddiriedaeth y sector drwy weithredu ac arweinyddiaeth. Teimlid y byddai system rybuddio gynnar, fel a geir mewn rhai ardaloedd o ddŵr arfordirol, yn ddefnyddiol ar gyfer rhai gweithgareddau hamdden. Teimlid hefyd, yng nghyswllt Gorlif Carthffosiaeth Cyfunol (CSO), y dylid ystyried yr effeithiau ehangach megis cemegion, microblastigau, maetholion yn ogystal ag estheteg. Trafodwyd y ffaith fod rhai agweddau megis microblastigau mewn cyfnod o ymchwil ar hyn o bryd ac y byddai angen gwaith pellach cyn y gellid gorfodi rheoleiddio ar gyfer arllwysiadau.

PG. CNC i gyflwyno'r diweddaraf ar ddatblygiad y rhaglen mapio gorlifoedd stormydd yn y cyfarfod nesaf

Eitem 6. Adolygiad Pris PR24 – Uchelgais y Dyfodol – CNC, DCWW a HD

Cafwyd cyflwyniadau gan DCWW a HD a oedd yn tynnu sylw at y blaenoriaethau cyffredinol ar gyfer Adolygiad Pris PR2024. Mae canolbwynt Hafren Dyfrdwy yn Afon Dyfrdwy ac Afon Hafren yn gydnaws â 7 egwyddor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hyn yn cynnwys gweithredu fel cyfrwng ar gyfer gweithgarwch economaidd lleol, twf a'r gadwyn gyflenwi leol. Disgwylidau'r cwsmer, newid hinsawdd a bod yn fforddiadwy fydd y prif ystyriaethau yn PR24. Darparwyd rhaglen ymarferol o hyn ar gyfer Llyn Efyrynwy.

Amlinellodd Dŵr Cymru y pwysau mawr megis newid hinsawdd a bod yn fforddiadwy a fydd yn wynebu datblygiad PR24. Roedd adnoddau newydd i gynorthwyo i gyflwyno gwelliant yn cynnwys prisio cyfalaf niferus, offer i wrthbwysu maetholion ac atebion wedi eu seilio ar natur. Disgrifiwyd nifer y Gorlifoedd Carthffosiaeth Cyfunol a'r gwelliannau a'r ymchwiliadau a wnaed dros gyfnodau rhaglen Cynllunio Rheoli Asedau (AMP) olynol. Mae gwybodaeth am nifer yr arllwysiadau ar gael i'w lawrlwytho ar wefan DCWW. Mae nifer a pharhad yr arllwysiadau fesul trwydded wedi cynyddu ers pan ddechreuwyd monitro. Bydd gorlifoedd stormydd hefyd yn cael eu hystyried yn y cynlluniau draenio a rheoli dŵr a fydd yn nodi anghenion dŵr gwastraff a charthffosiaeth dros y 25 mlynedd nesaf. Bydd cynlluniau draft ar gael ar gyfer ymgynghori yn ail chwarter 2022. Mae Gorlifoedd Carthffosiaeth Cyfunol hefyd yn cael eu hystyried dan raglen Fframwaith Asesu Gorlifoedd Stormydd (SOAF.) Mae atebion yn cynnwys rheoli dŵr arwyneb yn ei darddiad, lleihau rhwystrau, a chefnogi isadeiledd gwyrdd.

Eitem 7. Unrhyw fater arall

Bwriedir cynnal y cyfarfod nesaf ym Mis Mawrth 2022